**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

# SCHOOLS FINANCE FORUM

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**9.30 a.m. DYDD MAWRTH, 4 MAWRTH 2014**

**9.30 a.m. TUESDAY, 4 MARCH 2014**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gyfarfod / Assembly Room**

**Hen Eglwys Santes Fair / Former St Mary's Church**

**Heol yr Eglwys / Church Street**

**TREMADOG**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 28.02.14

## AELODAETH / MEMBERSHIP

**AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Sian Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones
Mr Dilwyn Williams

**PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail
Mr Emyr Hughes - Ysgol Dyffryn Nantlle
Mr Vaughan Williams - Ysgol Syr Hugh Owen

**PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Sian Elen Pleming - Ysgol Llanaelhaearn
Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli
Mr Dylan Roberts - Ysgol Cymerau
Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

**UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

**LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS**

**Arfon**

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen - Arennig, 14 Erw Las, Bethesda, Gwyedd
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid – 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid, Bangor, Gwynedd.

**Meirionnydd**

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn – Tanrallt , Llan Ffestiniog , Blaenau Ffestiniog
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr – Bryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2HW

**Dwyfor**

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog - Rhos Newydd, Mynytho, Pwllheli, LL53 7RW
Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd - Madryn , 30 Dolwar , Y Ffor

**ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

**YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

Disgwyl enwebiad / Awaiting nomination

**YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

**Sylwebyddion / Observers :**

Mr Harry Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Dewi R Jones, Pennaeth Addysg/Head of Education Service
Mr Owen Owens , Uwch Reolwr Addysg/Education Senior Manager
Mr Hefin Owen , Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

**R H A G L E N**

**1. Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau am fod yn absennol

**2. Datgan Buddiant Personol**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd 19 Tachwedd 2013.
(Copi yn amgaeedig – papur **gwyn**)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

i) Eitem 3(a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd (ar lafar) **OO**
ii) Eitem 3(b) – Adolygu Fformiwla Cynradd (ar lafar) **OO**
iii) Eitem 5(d) – Cyllido Addysg Ôl-16 oed (papur **melyn**) **DRJ**
(copi o lythyr Yr Aelod Cabinet i'r Llywodraeth
copi o ymateb y Gweinidog Addysg a hefyd
copi o lythyr y Pennaeth Addysg i ysgolion 6ed dosbarth )

5. **Cyllideb 2014/15 a Strategaeth Ariannol 2014/15 – 2017/18** (papur **gwyrdd)** **DOW**

Cysylltiad i'r adroddiad llawn er gwybodaeth :
**http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2013-14/Cabinet/2014-02-18/Cymraeg/09_02_Atodiad%201%20Strategaeth%20Ariannol.pdf**

6. **Balansau Ysgolion**
i) adrodd ar gynnydd ym malansau 8 ysgol yn ystod 2012/13 (papur **pinc**) **HO**
ii) amcangyfrif balansau ysgolion 31 Mawrth 2014 (papur **hufen**) **HO**
iii) ymgynghori ar sefydlu trothwy o 5% neu £50,000 / £100,000 **DRJ**
pa un bynnag yw'r lleiaf
( copi o lythyr y Pennaeth Addysg i ysgolion )

7.. **Cytundebau Lefel Gwasanaeth GwE 2014/15 :** **DRJ**
i) copi o lythyr y Pennaeth Addysg - **(**papur **eog )**
ii) adrodd ar lafar ar sail sylwadau a dderbynnir

**8.. Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2014/15 - adnewyddu cytundebau** **OO**

- Gwybyddiaeth a Dysgu
- Integreiddio
- Uned Cefnogi Ysgolion Cynradd
- Llyfrgell
- Archifau
- Arlwyaeth
- Cyngor Ariannol
- Rheoli Banc, Incwm a Buddsoddiadau
- Cyflogau a Personel

diweddariad ar lafar gyda sylwadau ysgolion yn cael eu cyflwyno i'r Fforwm ym mis Mehefin

**9.. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar ddydd Mercher, **18 Mehefin 2014 yn Nhremadog.**

**10.. Unrhyw fater arall**

**1. Apologies**

Apologies for absence

**2. Declaration of Personal Interest**

To receive any declaration of personal interest.

**3. Minutes**

To confirm the minutes of the Forum held on 19 November 2013.
(Copy enclosed – **white** paper)

**4. Matters arising from the minutes**

i) Item 3(a) – Review of the Secondary Schools' Formula (verbal) **OO**
ii) Item 3(b) – Review of the Primary Schools' Formula (verbal) **OO**
iii) Item 5(d) – Financing Post 16 Education (**yellow** paper) **DRJ**
(copy of the Education Cabinet Member's letter to the Government
copy of the Education Minister's response and also
copy of the Head of Education's letter to sixth form schools)

**5. 2014/15 Budget and 2014/15 – 2017/18 Financial Strategy (green paper)** **DOW**

Link to the complete report, for information, as follows:
**http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2013-14/Cabinet/2014-02-18/Cymraeg/09_02_Atodiad%201%20Strategaeth%20Ariannol.pdf**

6. **Schools' Balances**
i) report on progress regarding balances of 8 schools during 2012/13 (**pink** paper) **HO**
ii) school balances' estimates 31 March 2014 (**cream** paper) **HO**
iii) consultation on establishing a threshold of 5% or £50,000 / £100,000 whichever is the lowest **DRJ**
(copy of the Head of Education's letter to schools)

**7.. GwE's Service Level Agreements 2014/15 :** **DRJ**
i) copy of Head of Education's letter - (**salmon** paper)
ii) verbal report on the basis of comments received

**8.. Service Level Agreements 2014/15 – renewing agreements** **OO**
- Cognition and Learning
- Integration
- Primary Schools' Support Unit

- Library
- Archives
- Catering
- Financial Advice
- Management of Banking, Income and Investments
- Salaries and Personnel

Verbal up-date with comments from schools being submitted to the Forum in June

**9.. Date of next meeting**

To note that the next meeting of the Schools Finance Forum will be held on Wednesday, **18 June 2014 in Tremadog.**

**10. Any Other Business**

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys Santes Fair, Tremadog,**
**ar 19 Tachwedd 2013 o 1.30 p.m. hyd 3.30 p.m.**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam - Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Cyfarwyddwr Corfforaethol:** Mr Dilwyn Williams

**Penaethiaid Ysgolion :** Mr Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Mr Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Mr Vaughan Williams (Ysgol Syr Hugh Owen), Mr Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Mrs Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn), Mrs Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Mrs Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn).

**Llywodraethwyr:** Mr Gwynne Pierce (Sector Cynradd)
Mr Walter Williams (Sector Uwchradd)

**Swyddogion:** Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg)
Mr Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Mr Owen Owens (Uwch Reolwr Addysg)
Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Mr Harry Thomas (Prif Weithredwr), Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Emyr Hughes (Ysgol Dyffryn Nantlle), Mr Dylan Roberts (Ysgol Cymerau), Mrs Iona Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys), Mrs Donna Roberts (Ysgolion Pendalar a Hafod Lon), Parchedig Robert Townsend (Ysgolion Eglwys).

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid Datblygu, pe cyfyd mater yn ymwneud ag Ysgol Syr Hugh Owen oherwydd bod ei wraig yn Gadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol honno.

**2. <u>COFNODION</u>**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013 fel rhai cywir.

**3. <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>**

**(a) Eitem 6 (a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu nad oedd dim i'w adrodd ar yr uchod ond y byddai'r Grŵp Adolygu Fformiwla Uwchradd yn cwrdd ar 27 Tachwedd 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Eitem 6 (ch) - Adolygiad o'r Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg nad oedd dim i'w adrodd ar yr uchod gan nad oedd y Grŵp Tasg wedi cwrdd hyd yma.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod**

**(c) Eitem 6 (d) – Cytundeb Lefel Gwasanaeth GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion)**

Adroddodd y Pennaeth Addysg bod y mater uchod yn cael ei adolygu ar hyn o bryd o dan ofal Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE. Nodwyd ymhellach nad oedd wedi bod yn bosibl cynnal Grŵp Tasg oherwydd nad yw'r ysgolion cynradd (heblaw ychydig ohonynt) wedi arwyddo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Rhannwyd gwybodaeth gyda'r sector uwchradd yn ddiweddar ynglŷn â chyllideb gomisiynu'r gwasanaeth newydd pryd nodwyd bod arbediad parhaol yn y gwasanaeth. Bu i Cyd-bwyllgor GwE benderfynu defnyddio'r tanwariant i greu cyllideb ehangach er galluogi'r Prif Swyddog i adeiladu mwy o gefnogaeth i'r gyfundrefn gyda'r bwriad o ymwneud mwy gydag ysgolion yn y categorïau gwyrdd a melyn.

O safbwynt y sector cynradd, sef yr ysgolion hynny sydd heb arwyddo'r cytundeb, fe drafodir y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Ffederasiwn a hyderir y byddir yn derbyn ymateb cadarnhaol wedi hynny. Roedd yr ysgolion i gyd wedi derbyn llythyr gan Mr Huw Foster Evans, y Prif Swyddog, ynghyd â'i gwrdd yn ddiweddar a hyderai'r Pennaeth Addysg bod yr ysgolion yn fwy hyderus ar gyfer y dyfodol ac y gellir symud ymlaen.

Atgoffwyd yr hyn a nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm sef "bod y cytundeb cyfwerth â £250,000 ac os nad yw ysgolion yn cytuno i ymrwymo byddai'n ofynnol i'r Awdurdod adennill yr arian allan o gyllideb ysgolion flwyddyn nesaf".

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ch) Eitem 7 (b) – Balansau Ysgolion**

(i) Atgoffodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y Fforwm yr adnabuwyd wyth ysgol a oedd wedi sefydlu eu cyllideb a'r amcangyfrif o'r gwir balansau yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd gan yr ysgolion. Bu i'r Uned Gyllid ymchwilio i'r mater ond yn anffodus heb ddod i gasgliad cynhwysfawr ac fe ofynnwyd i'r Fforwm ohirio'r mater a'i drafod yn y cyfarfod nesaf pryd y cyflwynir adroddiad ysgrifenedig.

(ii) O safbwynt derbyn barn gyfreithiol ynglŷn â'r drefn gweithredu a'r ddeddfwriaeth i ddefnyddio grym gweithredu balansau dros 8% neu dros £50mil/£100mil, bwriedir ail-ymweld â'r Uned Gyfreithiol i ganfod a oes hawl gan yr Uned Gyllid weithredu ar lefel y balansau ar 1 Ebrill cyn i ysgolion sefydlu eu cyllidebau.

(iii) Nododd y Rheolwr Cyllid Datblygu nad oedd wedi ymgynghori gydag ysgolion fel dilyniant i benderfyniad yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm i fynd allan i ymgynghori'n ffurfiol gydag ysgolion ar gyfer ymrwymo i sefydlu trothwy o 5% neu £50,000/£100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf oherwydd bod llythyr ysgrifenedig wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn datgan eu bod am adolygu'r elfen hon.

Ymhelaethodd y Rheolwr Cyllid Datblygu ar y pedwar dewis i'r Fforwm sef:

(a) Peidio gweithredu
(b) Rhoi arweiniad i ysgolion ynglyn â balansau sydd dros drothwy o 5%
(c) Defnyddio'r grym o weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth i gymryd arian yn ôl pan fo gwarged gan ysgolion ar ôl gosod cyllideb dros y trothwy £50,000 / £100,000.
(d) Ymgynghori'n ffurfiol gydag ysgolion ar gyfer ymrwymo i sefydlu trothwy o 5% neu £50,000 / £100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf.

Nododd Aelod yr angen i bwysleisio wrth ysgolion, i osgoi camddealltwriaeth, mai at y gwarged y cyfeirir ac nid maint y balansau yn ei gyfanrwydd.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Addysg ar y darlun cenedlaethol yn dilyn cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg yn ddiweddar pryd y nododd bod £69m o arian wrth gefn gan ysgolion sy'n cyfateb i £154 y disgybl a bod gan awdurdodau lleol bwerau i gymryd arian yn ôl. Roedd yr Aelod Cabinet o'r farn tra'n derbyn bod ysgolion yn cadw arian wrth gefn ar gyfer cynlluniau annisgwyliadwy, apeliodd i'r Fforwm bod yn rhaid ymgynghori gydag ysgolion a chyrraedd sefyllfa lle mae'r arian yn cael ei ddefnyddio ar y disgyblion sydd yn yr ysgolion heddiw.

Nododd Aelod bod perygl i wthio ysgolion i gynllunio i wario eu balansau i gyd a bod hyn yn fwy anghyfrifol ac yn creu risg i'r ysgolion hynny.

Mewn ymateb, pwysleisiodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod rhaid i ysgolion fod yn gyfrifol drwy osod eu cyllideb a sicrhau bod y balansau yn rhesymol. Siomedig fyddai deall bod ysgol yn sefydlu cyllideb a ddim yn ei gwario ond deallir hefyd bod materion yn codi yn benodol yn y sector uwchradd yn ystod y flwyddyn megis aelod o staff yn ymddiswyddo neu'n ymddeol. Nodwyd ymhellach bod angen sustem glir, dryloyw ac yn ddealladwy i bawb.

Yn dilyn pleidlais:

**Penderfynwyd: Yn unfrydol, gofyn i'r Rheolwr Cyllid Datblygu ymgynghori'n ffurfiol gydag ysgolion ar gyfer ymrwymo i sefydlu trothwy o 5% neu £50,000 / £100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf.**

**(d) Eitem 10 – Cynyddu Datganoli**

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Datblygu at ymateb y Gweinidog Addysg i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglyn â datganoli arian i ysgolion a oedd yn datgan "ei fod wedi ei galonogi gan y cynnydd a wnaed ers 2010 gyda gwariant dirprwyedig i ysgolion wedi cynyddu o 76.2% yn 2011-12 i 82.3% yn 2013-14. Noda'r llythyr ymhellach bod Robert Hill yn ei adroddiad ar ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol yn cyflwyno nifer o opsiynau ynghylch cyllid ar gyfer addysg

ac ysgolion a thra ei fod yn canolbwyntio ar faterion cyllidol, nid yw yn ffocysu ar y ffurf bresennol o ddirprwyo. Awgryma'r adroddiad fodd bynnag bod targed newydd yn cael ei lunio gan ddefnyddio sylfaen fwy rhesymegol trwy nodi bloc o gyllid penodol ar gyfer swyddogaethau awdurdodau lleol statudol (a swyddogaethau eraill na ellir eu dirprwyo'n synhwyrol, megis cludiant ysgol a chyd-drefniant mynediad) a bloc gwariant penodol ar gyfer ysgolion. Byddai wedyn yn disgwyl y byddai'r cyfan neu bron pob un o'r blociau gwariant ar gyfer ysgolion yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Noda'r Gweinidog Addysg bod sylwadau'r CLlLC yn cael cefnogaeth gan nifer o gyflwyniadau i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar adroddiad Robert Hill ac y byddai'n croesawu trafodaeth ar sut y gellir ail-ffocysu'r sylw ac egni tuag at ystod ehangach o opsiynau cyllid o fewn adroddiad Hill".

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(dd) Eitem 11 – Adroddiad Robert Hill gomisynwyd gan y Gweinidog Addysg.**

Adroddodd y Pennaeth Addysg yn deillio o adroddiad Robert Hill bod Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth bellach wedi ei sefydlu a phleser ydoedd llongyfarch Mr Alun Llwyd, Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen a Mr Rhys Hughes, Pennaeth Ysgol Cae Top, Bangor, ar eu hethol i wasanaethu ar y Bwrdd .

Cynhaliwyd trafodaethau sylweddol yn genedlaethol a bu Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE, yn rhan o'r trafodaethau hynny yng nghyd-destun datblygu Model Cenedlaethol newydd a fyddai'n rhoi arweiniad i'r pedwar consortia rhanbarthol sydd bellach wedi eu sefydlu yng Nghymru. Rhagwelir y byddai'r model yn golygu ail-edrych ar gyfansoddiad Cyd-bwyllgor GwE Bwrdd Gweithredol a all olygu llai o ddylanwad lleol.

O'r meysydd trafod, nodwyd mai'r un mwyaf cynhennus ydoedd a yw'r drefn genedlaethol yn disodli'r pwerau lleol? Nodwyd ymhellach bod pedwar Grŵp wedi eu sefydlu yn genedlaethol i ystyried y pedwar maes isod:

(1) Beth yw pwrpas a diben y gwasanaethau rhanbarthol?
(2) Beth yw'r drefn gomisiynu a threfniadau llywodraethu?
(3) Beth yw'r cyllidebau a'r cynlluniau busnes?
(4) Datblygu'r syniad bod ysgolion yn cynorthwyo ei gilydd.

Disgwylir y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi'r Model Cenedlaethol newydd ac yn ei arwyddo ar 30 Tachwedd eleni ac erbyn Chwefror 2014 disgwylir i'r pedwar consortia rhanbarthol gyflwyno cynlluniau busnes gyda'r Model newydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2014.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**5. <u>STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR</u>**

Cyflwynodd Mr Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, adroddiad i Aelodau'r Fforwm gan dynnu sylw penodol at y pwyntiau canlynol:

(a) Cyfeiriwyd at y tabl isod yn dangos strategaeth wreiddiol y Cyngor a oedd yn darogan bod y cynlluniau arbedion ar gyfer 2013/14 a 2014/15 yn fwy na digonol i gwrdd â'r diffyg am y blynyddoedd hynny ond y byddai angen sefydlu cyfres o arbedion pellach ar gyfer 2015/16 a 2016/17:

| £m | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer | 1.9 | 4.7 | 9.8 | 8.4 | 24.8 |
| Arbedion yn cael eu darganfod eisoes | 3.6 | 4.6 | 0.5 | - | 8.7 |
| Arbedion pellach angenrheidiol | (1.7) | 0.1 | 9.3 | 8.4 | 16.1 |

(b) Roedd yr uchod yn seiliedig ar ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror eleni y byddai grant llywodraeth leol yn cynyddu 0.8% yn 2014/15 a fyddai'n golygu cynnydd o tua £500,000 yng ngrant Cyngor Gwynedd.

(c) Bellach, mae'r setliad drafft yn honni y bydd grant llywodraeth leol yn gostwng 3.5% ar gyfartaledd ar draws Cymru yn 2014/15. Fodd bynnag, mae'r gwir ostyngiad yn uwch oherwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ymdrin â'r Grant Cynllun Lleihad Treth Gyngor a'r arian a roddwyd o'r newydd i ariannu'r cynllun benthyciadau ar gyfer gwella lonydd. O gymryd y ddau fater yma i ystyriaeth mae'r gwir ostyngiad ar draws Cymru yn agosach at 4% a gostyngiad Gwynedd yn tynnu at - 4.7% Mae hyn gyfystyr a gostyngiad grant o £8.3m i Gyngor Gwynedd.

(ch) O safbwynt goblygiadau i'r Gyllideb Ysgolion, hyd nes bydd y Cabinet wedi ystyried yr holl opsiynau sy'n agored iddo, nodwyd ei fod yn anodd bod yn bendant ynglyn â'r hyn fydd yn digwydd i'r gyllideb ysgolion ond ar hyn o bryd yr hyn sy'n cael ei drafod ydoedd:

- Derbyn y byddir yn addasu cyllidebau i gymryd ystyriaeth o demograffi (bydd gan hyn ardrawiad amrywiol ar wahanol ysgolion yn ôl y cynnydd / lleihad yn nifer y disgyblion)
- Nodi y bydd ysgolion yn derbyn cynnydd yn y grant disgyblion o gefndiroedd difreintiedig (fydd o fantais amrywiol i ysgolion yn ôl y niferoedd plant perthnasol sydd ganddynt)
- Fel arall, cadw cyllidebau ysgolion yn fras fel ag y maent eleni (bydd y chwyddiant cyflogau a chwyddiant "arall" ychwanegol a roddwyd i ysgolion ar gyfer eleni uwchben yr hyn yr oeddynt ei angen ynghyd ag ychwanegiad bychan gan y Cyngor yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant)
- Oherwydd y sefyllfa sy'n dod yn amlwg ym Meirionnydd, hyd nes y byddir wedi sefydlu cynllun ar gyfer ateb problemau'r sector Uwchradd yn y fan honno, bwriedir cyflwyno cynllun "gwarchodaeth" i unrhyw ysgol Uwchradd sy'n mynd o dan 260 o ddisgyblion ar gost y Cyngor
- Bydd mân newidiadau i ysgolion unigol oherwydd y ffordd mae'r fformiwla yn gweithio (oherwydd ardrawiad nifer plant cinio ysgol am ddim er enghraifft) ac yn sgil y warchodaeth yma a roddir i ysgolion ni fydd unrhyw fidiau eraill yn cael eu hystyried (fe allasai hyn olygu gorfod ariannu cynnydd yn y gofyn am frecwast am ddim o'r gyllideb bresennol)

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol pe byddai'r Cabinet yn gallu gwireddu'r dymuniad uchod, roedd yn rhoi ysgolion mewn lle llawer gwell na holl wasanaethau eraill y Cyngor.

Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw gynlluniau wedi eu trafod eto ar gyfer 2015/16 ac felly ni allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol roi unrhyw sicrwydd o beth fyddai'n digwydd yn y flwyddyn honno. Pe byddai unrhyw fwriad i weithredu gostyngiad yn y gyllideb ysgolion rhoddwyd sicrwydd i'r Fforwm y byddai yn eu hysbysu cyn gynted ag y bo modd a rhagwelai trafodaethau ar hyn yn y cyfnod Ebrill – Mehefin 2014.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol fe godwyd ymwybyddiaeth y Fforwm o du'r sector Uwchradd am eu pryder ynglyn â'r newydd annisgwyl yn y dull o gyllido addysg ôl-16 o Ebrill 2014. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ysgolion gyda chweched dosbarth ac awgrymwyd y dylai llythyr gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn enw'r Aelod Cabinet Addysg yn datgan anfodlonrwydd yn erbyn y toriadau yn y grant, y dull a'r amserlen o'i weithredu.

(dd) Mewn ymateb, cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Bennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen sy'n rhagweld, ar sail cyllido newydd y Llywodraeth, honno sydd gyfwerth â 28% o'r gyllideb chweched dosbarth y dderbyniwyd am y tair blynedd diwethaf. Gofynnwyd i'r Awdurdod gapio a gosod "rhwyd diogelu" i unrhyw doriad i ysgolion unigol ar 10% am y flwyddyn 2014-15 yn unig a fyddai'n galluogi ysgol i gynllunio ar gyfer y lefel a threfn gyllido i'r dyfodol gan gadw'r ymrwymiad i'r myfyrwyr sydd ym Mlwyddyn 12 gyfredol. Nododd y Pennaeth Addysg bod Consortiwm ôl-16 wedi ei ffurfio i edrych ar gyrsiau a sut y gellir rhesymoli ar gyfer 2014 a'r blynyddol dilynol. Sicrhawyd y byddai'r Gwasanaeth Addysg yn cynnal trafodaeth ac ystyried y ffordd ymlaen.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y strategaeth ariannol.**

**(b) Derbyn a nodi cynnwys llythyr Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen yn codi ymwybyddiaeth y Fforwm o sut yr effeithir ysgolion yn sgil toriadau i'r grant ôl-16 gan Lywodraeth Cymru.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno llythyr i Lywodraeth Cymru yn cyfleu anfodlonrwydd y Fforwm i'r toriadau o gyllido addysg ôl-16 a amlygwyd yn (d) a (dd) uchod.**

## 6. BALANSAU YSGOLION –ADRODDIAD LLYWODRAETH CYMRU

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Pennaeth Addysg ynghyd â chyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar falansau ysgolion 31 Mawrth 2013.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Datblygu at dabl ynghlwm i'r adroddiad a oedd yn cymharu balansau ysgolion Gwynedd gyda gweddill awdurdodau lleol Cymru ac fe welwyd bod canran balansau ysgolion Gwynedd yn erbyn y gyllideb ddatganoledig yn 4.5% o'i chymharu gyda chyfartaledd Cymru o 3.3%. Nodwyd bod lefel gymharol uchel balansau ysgolion Gwynedd yn parhau i achosi pryder gan nad yw rhai ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd oddi fewn i'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd hefyd y gall lefel balansau uchel rhai ysgolion Gwynedd greu rhwystr wrth i'r Aelod Cabinet Addysg geisio amddiffyn ysgolion rhag derbyn toriadau ariannol uchel.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg yr awgrymai Robert Hill yn ei adroddiad ar gyfer y model cenedlaethol y dylid ystyried rhesymau pam bod ysgolion yn y categori da a bod yr ystyriaethau hynny yn cynnwys rheoli cyllid. Awgryma ymhellach os yw ysgolion yn cyrraedd y categori gwyrdd yn gyson, na ddylid pryderu, ond os yw ysgol yn cael ei chategoreiddio yn yr oren neu goch ac yn cario balansau yna dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r sefyllfa gan sicrhau bod y gyllideb yn cael ei defnyddio ar gyfer safonau addysg.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid Datblygu wrth ymgynghori'n ffurfiol ag ysgolion ynglyn â balansau (fel amlinellir yn Eitem 3 (ch) uchod) i gynnwys paragraff o eglurhad fel cefndir i Benaethiaid o bwysigrwydd yr uchod.**

## 7. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

### (a) Diweddariad o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2013/14

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2013/14 fel a ganlyn:

(i) Integreiddio - bod y cytundeb wedi ymestyn am flwyddyn arall a phob un ysgol wedi ymrwymo iddo.

(ii) Tîm Gwybyddiaeth a dysgu - bod un ysgol gynradd heb barhau gyda'r cytundeb.

(ii) Cynnal a Chadw Uwchradd - bod un ysgol uwchradd yn hwyr yn ymateb gydag addewid y byddai'r awdurdod addysg yn derbyn y cytundeb wedi ei harwyddo ond parheir i ddisgwyl.

(iii) Cynnal a Chadw Cynradd – bod saith ysgol wedi ymrwymo i'r cytundeb tra bo'r gweddill yn ymatal rhag arwyddo yn sgil trafodaethau ynglyn â baich gwaith penaethiaid. Nodwyd bod llawer iawn o waith wedi ei gyflawni i ymateb i bryderon a hyderir y byddir yn gallu symud ymlaen yn eitha' buan.

(iv) Clerc Llywodraethwyr - bod saith ysgol wedi ymrwymo i'r Cytundeb yma a bellach bod 3 o staff wedi eu penodi i'r pwl Clercod ac un swyddog parhaol.

### (b) Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd angen eu hadolygu ar gyfer Ebrill 2014

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg bod nifer o gytundebau yn dirwyn i ben ac angen eu hadnewyddu sef:

(i) Sector Cynradd
- Llyfrgelloedd
- Archifau
- Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu
- Integreiddio
- Uned Gefnogi Addysg (Swyddfa Ardal)

(ii) Sector Cynradd ac Arbennig
- Arlwyaeth

(iii) Sector Cynradd, Uwchradd ac Arbennig
- Cyngor Ariannol
- Rheoli Banc
- Cyflogau a Phersonél
- Cynnal Tiroedd

Nodwyd bod ysgolion eisoes yn gyfarwydd â'r uchod ag eithrio'r cytundeb Cynnal Tiroedd a bwriedir ymgynghori â hwy ac yn cyflwyno fersiynau drafft gan gynnwys newidiadau.

O safbwynt y cytundeb Cynnal Tiroedd fe fydd y fanyleb yn gyffredin i bob ysgol ond yn dangos arwynebau ysgolion penodol yn wahanol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd y byddir yn adnewyddu’r cytundeb lefel gwasanaeth Glanhau ym Mawrth 2015

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

## 12. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF

Adroddwyd bod y dyddiad nesaf wedi ei bennu ar gyfer 20 Chwefror 2014 ond deallwyd bod cyfarfod ar gyfer llywodraethwyr wedi ei drefnu'r diwrnod hwnnw a gofynnwyd a fyddai modd newid dyddiad y Fforwm.

**Penderfynwyd: Gofyn i’r Swyddog Cefnogi Aelodau ganfod dyddiad arall ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

**Dirprwy Arweinydd y Cyngor • Deputy Council Leader**
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc •**
**Cabinet Member for Education and Children & Young People**
Cynghorydd / Councillor Sian Gwenllian

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Sian Gwenllian**
☎ **(01286) 679162**
Cynghorydd.SianGwenllian@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: **SG/AAS**
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

02 Rhagfyr 2013

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Huw Lewis

***Par: Cyllid Dynodol Chweched Dosbarth Awdurdod Lleol 2014-15 – Yn amodol ar gynnig ffurfiol o gyllid grant***

Yn dilyn derbyn eich llythyr dyddiedig 30 Hydref 2013, mae'n ddrwg gennyf eich hysbysu bod y cynigion a geir ynddo wedi peri cryn anesmwythyd a phryder ymysg penaethiaid ysgolion uwchradd y sir o ganlyniad i raddfa'r gostyngiad o ran cyllid a'r effaith posibl ar y disgyblion sydd yn y 6ed dosbarth ar hyn o bryd.

Ar ôl derbyn y dyraniad grant dynodol ar gyfer 2014/15, rydym yn canfod y bydd Ysgolion ôl-16 Gwynedd yn wynebu gostyngiad ariannol o £288,358 (8.6%), sy'n gyfwerth â gostyngiad yn nhermau real o £321,716 (9.6%).

Am y rhesymau canlynol, 'rydym yn gofyn yn garedig i chi ystyried gwella'r cap gostyngiad cyllido awdurdodau lleol o 10% sydd eisoes mewn lle:

1. Nid yw ysgolion wedi derbyn unrhyw wybodaeth ariannol ddynodol ymlaen llaw o effaith y system gyllido newydd a'i fethodoleg. Nid ydym felly wedi gallu cynllunio ar gyfer y gostyngiad ariannol sylweddol ac annisgwyl hwn. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer cyllido ysgolion yn nodi ei bod yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu "….amcangyfrifon o'r cyllid a ddyrennir i ysgolion dros y ddau gyfnod cyllido dilynol …", ni dderbyniwyd hynny ar gyfer y grant ôl-16.

2. Nifer disgyblion yn 6ed Dosbarth Ysgolion Gwynedd ym mis Medi 2009 714, Medi 2010 729, a Hydref 2013 718 a rhagwelir bydd yn 812 ym mis Medi 2014. Nid yw'r fethodoleg a ddefnyddir i fwydo'r system gyllido newydd ond yn darparu cyllid ar gyfer 685 o ddisgyblion am y flwyddyn ariannol 2014/15, sydd yn sylweddol is na'r niferoedd yn y rhaglen bresennol a'r nifer rhaglenni a ragwelir ar gyfer Medi 2014. 'Rydym yn cwestiynu'r sail rhesymegol yn y fethodoleg o gynnwys gostyngiadau yn nifer disgyblion a ragwelir ar gyfer Medi 2014, 2015 a 2016 yn y cyfartaledd a ddefnyddir ar gyfer y pedair blynedd. Mae hyn yn arwain at gyflymu gostyngiad grant cyn y gostyngiad a ragwelir yn nifer disgyblion. Ymddengys yn anfoesol bod disgyblion heddiw yn derbyn llai o gyllid oherwydd y rhagwelir gostyngiadau yn nifer y

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

disgyblion yn y dyfodol. Mae symud o egwyddor o gyllido'r flwyddyn gyllidol nesaf 100% ar sail y ddarpariaeth bresennol, hynny yw y gwir niferoedd a'r rhaglenni astudio presennol, i egwyddor o gyllido ar sail rhagolygon niferoedd a rhaglenni dysgu amrwd ac ansicr iawn dros y tair blynedd nesaf yn afresymol. Fe fydd hynny yn arwain at gyllido ar lefel wahanol iawn i'r ddarpariaeth bresennol ar lefel Awdurdod Lleol ac yn enwedig ar lefel ysgol unigol.

3. Mae'r gostyngiad yn groes i Ymrwymiad Cyllido Addysg Llywodraeth Cymru.

4. Mae ysgolion wedi ymrwymo i barhau'r ddarpariaeth addysg a roddir ar hyn o bryd i ddisgyblion blwyddyn 12 a fydd yn trosglwyddo i blwyddyn 13 ym mis Medi 2014.

5. Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n pennu dosbarthiad y grant ôl-16 i ysgolion unigol, byddai opsiwn dosbarthu ar draws y bwrdd yn arwain at wir doriad o 9.6% i bob ysgol, tra byddai opsiwn rhesymegol arall o ran dosbarthu yn arwain at wir doriad i'r tair ysgol unigol yr effeithir waethaf arnynt o £191,081 (27.5%), £57,544 (20.8%) a £94,519 (10.0%).

Mae perygl gwirioneddol y bydd gweithredu gostyngiadau mor sylweddol yn frysiog yn gwneud niwed mawr i ansawdd addysg y disgyblion hyn. Gellir sicrhau nad ydym yn wynebu canlyniadau mor gatastroffig trwy reoli'r gostyngiad mewn ffordd resymol a doeth ac felly erfyniwn arnoch i adolygu'r cap cyllido fel mater o frys . Ein cais yw gwella'r cap cyllido ar gyfer awdurdodau lleol i 5% neu lai, a fyddai o gael sêl bendith, yn gynnydd o ran cyllid a fyddai'n cael ei groesawu. Byddai rhai ysgolion, fodd bynnag, yn dal i wynebu gostyngiad ariannol sylweddol.

Mae amser yn ein herbyn a buasem yn gwerthfawrogi ymateb prydlon fel y medrwn hysbysu Disgyblion, Rhieni, Staff a Llywodraethwyr ohono.

Yn gywir,

Sian Gwenllian

**Cyng. Sian Gwenllian**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac**
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Dyffryn Ogwen**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Tryfan**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Friars**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Syr Hugh Owen**

E. Jones
.............................................
**Pennaeth - Ysgol Brynrefail**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Dyffryn Nantlle**

.............................................
**Pennaeth - Ysgol Y Berwyn**

**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref SG/AAS
Ein cyf/Our ref HL/01884/13

Sian Gwenllian
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

anniesanson@gwynedd.gov.uk

20 Rhagfyr 2013

Annwyl Sian

**Parthed: Cyllid Dangosol Chweched Dosbarth 2014-15 – yn ddarostyngedig i gynnig ffurfiol o gyllid grant.**

Diolch am eich llythyr yn ymwneud â Chyllid Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol 2014-15 ac yn benodol â'r dyraniadau dangosol a gyhoeddwyd i Awdurdod Lleol Gwynedd.

Mae cyfathrebu dyraniadau dangosol 2014-15 yn dilyn cyfnod o dair blynedd lle'r oedd dyraniadau i Awdurdodau Lleol wedi'u rhewi'n eang ar lefelau cyllido 2009-10.

Yn ystod y cyfnod hwn gwelodd nifer o Awdurdodau Lleol gynnydd yn nifer y dysgwyr ac roedd disgwyl iddynt reoli'r cynnydd hwnnw o fewn y dyraniadau cyllido. Ar y llaw arall, profodd llawer o Awdurdodau Lleol ostyngiadau yn nifer y dysgwyr ond cynhaliwyd lefel eu cyllid.

Yn achos Gwynedd, roedd dyraniad 2009-10 wedi'i seilio ar 720 o ddysgwyr ac yn ystod y cyfnod pan nad oedd y model cyllido'n gymwys, roedd nifer y dysgwyr y gellid eu cyllido'n amrywio rhwng 730 a 698 o ddysgwyr.

Er bod yr Awdurdodau Lleol yn derbyn yr amrywiadau hyn yn eang ac yn eu croesawu fel cyfnod o sefydlogrwydd, rhoddwyd tasg i'r Adolygiad Cynllunio a Chyllido addasu'r llinellau sylfaen hyn i adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg a chyfraddau aros ymlaen fel rhan o gyflwyno'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido newydd.

Mae'r dull a ddefnyddiwyd i addasu llinellau sylfaen 2014-15 a dylanwadu ar ddyraniadau blynyddoedd y dyfodol yn defnyddio gwir niferoedd chweched dosbarth ar gyfer y tair

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

blynedd diwethaf[1] a gwir ddata poblogaeth 16-18[2] i greu cyfradd 'aros ymlaen' ddeilliadol. Yna defnyddiwyd y gyfradd aros ymlaen hon, ochr yn ochr â'r data poblogaeth 16-18 i ragweld y nifer o ddysgwyr sy'n debygol o aros yn y chweched dosbarth yn 2014-15. Felly, er bod rhagfynegiadau'n chwarae rhan wrth ddeillio'r dyraniadau, mae'r rhain wedi'u seilio ar y data diweddaraf sydd ar gael.

Y nifer o ddysgwyr a ragwelir drwy ddefnyddio'r fethodoleg hon yng Ngwynedd yw 685 ar gyfer 2014-15. O ystyried fod y cohort diweddaraf gwybyddus o ddysgwyr, yn 2012, yn 698 a bod demograffeg 16-18 Gwynedd yn parhau i leihau, byddai hwn yn ymddangos yn rhagfynegiad rhesymol.

Ers derbyn hysbysiad o'r dyraniadau dangosol, gofynnwyd i Gwynedd, ynghyd â'r holl Awdurdodau Lleol eraill, gynllunio darpariaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r cynlluniau a ddychwelwyd gan Gwynedd yn dangos cohort dysgu dangosol o 812 er gwaethaf y ddemograffeg sy'n disgyn. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn cyfarfod â phob Awdurdod Lleol i drafod y cynlluniau hyn a'r tebygolrwydd o gyflenwi cynnydd o 20 y cant yn y gyfradd aros ymlaen yn realistig yn 2014-15.

Ni fydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn effeithio ar ddyraniadau 2014-15, ond os caiff y niferoedd arfaethedig a nodir gan Gwynedd eu cyflenwi mewn gwirionedd yn 2014-15 bydd y niferoedd hynny'n cael eu defnyddio wrth ffurfio dyraniadau yn y dyfodol.

Rwyf i'n gobeithio fod yr esboniad hwn o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y sail resymegol a ddefnyddiwyd i ddod at y dyraniadau.

Mae eich llythyr hefyd yn codi nifer o bwyntiau eraill yr hoffwn ymateb iddyn nhw'n unigol:

1. Mae'r ddeddfwriaeth cyllido ysgolion rydych chi'n cyfeirio ati'n gosod dyletswydd ar Awdurdod Lleol i ddarparu amcangyfrif o gyfran cyllideb ysgolion am y ddau gyfnod cyllido dilynol yn unig ar gyfer yr elfen cyn 16 o gyllid ysgolion. Fodd bynnag rwyf i'n cydnabod pwysigrwydd dyraniadau dangosol tair blynedd ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ac un o ganlyniadau'r Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16 yw darparu dyraniadau tair blynedd dangosol i Awdurdodau Lleol pan fyddwn ni mewn sefyllfa i wneud hynny.

2. Caiff sail resymegol y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ragfynegi niferoedd dysgwyr ei hegluro uchod.

3. Fel gyda phwynt 1 mae ymrwymiad cyllido addysg Llywodraeth Cymru wedi'i gymhwyso i addysg orfodol yn unig.

4. Mae dosbarthu'r grant ôl-16 i ysgolion yn fater i'r awdurdod lleol a mater i'r awdurdod lleol yw pennu sut mae'n dewis cydnabod ymrwymiad ysgol unigol.

5. Unwaith eto, mater i'r awdurdod lleol yw dosbarthu'r grant ôl-16 i ysgolion. Mae'r opsiwn a fanylir yn amlwg yn adlewyrchu'r ffaith fod y tair ysgol a amlygir wedi cael cynnig lefel o 'warchodaeth' tra bo'r model cyllido blaenorol yn cael ei roi i'r naill ochr. Yn yr un modd ag yr oedd gosod y 'warchodaeth' hon yn fater i'r awdurdod lleol, mae tynnu'r warchodaeth hefyd yn fater i'r awdurdod lleol.

Yn olaf rydych chi'n gofyn am gael adolygu'r cap cyllido. Yn wyneb y gostyngiadau cyllideb a orfodwyd ar y gyllideb addysg ôl-16 sydd wedi cael cyhoeddusrwydd eang, nid wyf i'n gallu cefnogi'r cais am unrhyw newid i'r cap cyllido. Roedd addasu'r llinellau sylfaen yn

[1] Data PLASC mis Medi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol
[2] Data poblogaeth StatsCymru

angenrheidiol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyd-fynd â'r newidiadau demograffig sydd wedi digwydd ers gosod y system cyllido flaenorol i'r naill ochr.

Yn gywir



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
🖹 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ dewirjones@gwynedd.gov.uk

2 Rhagfyr 2013

At benaethiaid ysgolion:

Dyffryn Ogwen, Friars, Tryfan, Brynrefail, Syr Hugh Owen, Dyffryn Nantlle,
Y Berwyn

Annwyl Gyfeillion

***Par: Grant Ôl-16 oed 2014/2015***

Yn y lle cyntaf hoffwn ddiolch yn fawr i bob un ohonoch am eich cyfraniadau i'r drafodeth a gawsom yr wythnos ddiwethaf, ac yn bennaf oll am eich sylwadau ystyrlon. Yr aflwydd pennaf efo'r maes hwn eleni ydi na chafwyd na rhagrybudd na chyfle i gynllunio ymlaen llaw am y newid a wynebwn sy'n ein gorfodi i fod yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol.

Cyn y cyfarfod yr oeddwn yn awyddus i geisio cyrraedd at sefyllfa ble byddai'r Awdurdod yn gyffyrddus i gefnogi dull dosbarthu teg a chynhwysol i'n holl ysgolion, a hynny gan gofio nad oes yr un geiniog wedi ei dosbarthu hyd yma. Er mai dyna oedd fy mwriad, 'rwy'n ymddiheuro i chi na wnes y mater yn gwbl glir ac i ddau sylw o'm heiddio i raddau groes-ddweud ei gilydd.

Ers y cyfarfod, yr wyf wedi ystyried yr holl fater ar sail y farn a gyflewyd gennych yn ogystal â fy safbwynt fy hun, a gwneud hynny trwy ymgynghori a thrafod efo Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid, a Hefin Owen, Rheolwr Cyllid. Tanlinellaf fy niolch i'r ddau fel ei gilydd am eu harweiniad a'u hawydd i geisio eich cefnogi chi fel penaethiaid i ddarparu'r gorau a fedrwn i'n pobl ifanc.

Ar sail yr uchod, yr wyf bellach wedi cyflwyno fy sylwadau a fy marn am y maes hwn i'r Aelod Cabinet dros Addysg sydd yn ei dro wedi arwain at y penderfyniad a eglurir isod. Dyma'r cynllun dosbarthu ar gyfer 2014/2015 sydd wrth gwrs yn gynllun 'unwaith ac am byth'.

1. Dosbarthu cyfanswm y Grant Ôl-16 oed ar sail ystadegau 22 Hydref 2013 gan gydnabod y BAC fel Safon Uwch llawn, gwerth ariannol rhaglenni Llywodraeth Cymru a chynnwys y 3 'uplift' fel ag y'u derbyniwyd. Gan fod y cyfanswm a gynhyrchir yn llawer uwch na'r grant sydd ar gael, rhaid lleihau swm y dyraniad i bob ysgol 'pro rata' er mwyn cysoni gyda chyfanswm y grant sydd ar gael. Ar gyfer 2014/2015 fe addasir y dyraniad llawn i fyny neu i lawr yn unol â'r cynllun gwarchodaeth unwaith ac am byth a amlinellir yn rhif 2 isod. (Gweler y daenlen atodol).

2. Sefydlu cynllun gwarchodaeth unwaith ac am byth ar gyfer 2014/2015 trwy fuddsoddi £160,858 o arian Cyngor Gwynedd yn ychwanegol at y Grant Ôl-16 oed, a hynny oherwydd y gostyngiad sylweddol ac annisgwyl yn y grant. Fe weithredir y cynllun hwn trwy haneru unrhyw gynnydd neu leihad yn y grant mewn termau real rhwng 2013/2014 a 2014/2015.

Swyddfa'r Cygnor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

3. Os bydd ein cais i'r Llywodraeth yn llwyddo, a hynny ar sail y llythyr a anfonir, bydd unrhyw gyllid ychwanegol a dderbynnir yn cael ei ad-dalu i Gyngor Gwynedd hyd at gost y cynllun gwarchodaeth o £160,858. Dosberthir unrhyw swm a dderbynnir uwchben hynny ar sail 'pro rata' i'r dyraniad terfynol gan gynnwys y warchodaeth.

4. Ar ôl ystyried ymhellach, nid wyf am ofyn i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth na gwybodaeth bellach i gyfiawnhau unrhyw angen am fuddsoddiad ychwanegol.

5. Fe lawn sylweddolwn i gyd na fydd y buddsoddiad ychwanegol unwaith ac am byth hwn yn cau'r bwlch ariannol yn ein cyfundrefn nac oblygiadau hynny. Er hynny, gobeithiaf y bydd yn gymorth i chi baratoi ar gyfer Medi 2014 yn fwy ystyrlon.

---

**2015/2016 ac ymlaen**

Rhag i ni golli golwg ar yr angen i feddwl a chynllunio ymlaen, yr ydym yn rhannu eich pryderon fel penaethiaid am y dull ariannu newydd sydd ar gyfer 2014/2015 wedi arwain at ostyngiad o dros £5m o grant i ysgolion Cymru. Nodaf yr elfennau amlycaf:

- cynnwys ystadegau sy'n seiliedig ar gyfartaledd rhagolygon niferoedd i'r dyfodol
- diffyg cydnabyddiaeth eglur o'r BAC
- oblygiadau posib os bydd y BAC yn orfodol o Fedi 2015 yn ôl y disgwyl.

Yn dilyn ein cyfarfod y mae'r Rheolwr Cyllid eisoes wedi cysylltu efo swyddogion priodol Llywodraeth Cymru i rannu ein pryderon gan ofyn am gyfarfod cyn gynted â phosib i drafod sail dosbarthiad grant 2015/2016. Bydd Hefin Owen yn siŵr o'ch diweddaru ar y sefyllfa hon fel y datblygith pethau.

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Cynghorydd Siân Gwenllian, Aelod Cabinet dros Addysg
Harry Thomas, Prif Weithredwr
Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid
Hefin Owen, Rheolwr Cyllid
Owen Owens, Uwch Reolwr Addysg
Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd

**Grant ol 16 2014/15**

| | | | | 2013/14 | Nifer Rhaglenni (yn cynnwys WBQ) 22 Hydref 2013 | | | 2014/15 | | | | | | | | | | | Penderfyniad Terfynol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £3,336,088 | 2 | 3 | 4+ | | £45,886 | £227,660 | £314,646 | | £3,047,733 | | | | | | | | | |
| | | Nifer Disgyblion 6ed Dosbarth Medi 2013 | Nifer Disgyblion 6ed Dosbarth 22/10/13 | Grant 2013/14 | £2,608 | £3,377 | £4,147 | Disgyblion | Deprivation | Sparsity | Welsh Medium | Amcan Grant Damcaniaethol 2014/15 | Amcan Grant 2014/15 (yn dilyn lleihad 'pro rata') | amcan lleihad/ cynnydd 'arian' | amcan lleihad/ cynnydd 'arian' | amcan lleihad/ cynnydd 'termau real' | amcan lleihad/ cynnydd 'termau real' | Cynllun gweithredu unwaith ac am byth ar sail hanneru effaith ariannol unrhyw twf/lleihad yn nhermau real gan ychwanegu £160,858 o arian Cyngor Gwynedd | Cyfanswm dosbarthiad grant a effaith y cynllun gweithredu unwaith ac am byth | Lleihad/ cynnydd ariannol yn nhermau real rhwng 2013/14 a 2014/15 | Lleihad/ cynnydd ariannol yn nhermau real rhwng 2013/14 a 2014/15 |
| 4002 | Dyffryn Ogwen | 47 | 47 | £276,757 | | 5 | 42 | £191,059 | £0 | £34,369 | £25,756 | £251,184 | £221,980 | -£54,777 | -19.8% | -£57,544 | -20.8% | £28,772 | £250,752 | -£28,772 | -10.4% |
| 4004 | Brynrefail | 109 | 108 | £522,089 | | 14 | 94 | £437,096 | £751 | £57,475 | £58,947 | £554,269 | £489,826 | -£32,263 | -6.2% | -£37,484 | -7.2% | £18,742 | £508,568 | -£18,742 | -3.6% |
| 4007 | Dyffryn Nantlle | 68 | 68 | £288,591 | | 6 | 62 | £277,376 | £1,898 | £34,214 | £28,737 | £342,226 | £302,436 | £13,845 | 4.8% | £10,960 | 3.8% | -£5,480 | £296,957 | £5,480 | 1.9% |
| 4033 | Y Berwyn | 68 | 68 | £286,625 | | 4 | 64 | £278,916 | £0 | £32,436 | £31,496 | £342,847 | £302,986 | £16,361 | 5.7% | £13,495 | 4.7% | -£6,747 | £296,239 | £6,747 | 2.4% |
| 4036 | Friars | 225 | 226 | £948,447 | | 74 | 152 | £880,242 | £18,188 | £16,103 | £62,471 | £977,004 | £863,412 | -£85,035 | -9.0% | -£94,519 | -10.0% | £47,260 | £910,672 | -£47,260 | -5.0% |
| 4037 | Tryfan | 88 | 86 | £319,160 | | 25 | 61 | £337,392 | £5,141 | £28,587 | £32,632 | £403,752 | £356,809 | £37,649 | 11.8% | £34,458 | 10.8% | -£17,229 | £339,581 | £17,229 | 5.4% |
| 4039 | Syr Hugh Owen | 118 | 115 | £694,419 | | 24 | 91 | £458,425 | £19,908 | £24,476 | £74,607 | £577,416 | £510,282 | -£184,137 | -26.5% | -£191,081 | -27.5% | £95,541 | £605,823 | -£95,541 | -13.8% |
| | | **723** | **718** | **£3,336,088** | **0** | **152** | **566** | **£2,860,506** | **£45,886** | **£227,660** | **£314,646** | **£3,448,698** | **£3,047,733** | **-£288,355** | **-8.6%** | **-£321,716** | **-9.6%** | **£160,858** | **£3,208,591** | **-£160,858** | **-4.8%** |

**1 Ysgolion**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion. Y rhagdybiaeth yw mae'n debyg y byddem wedi gweld gostyngiad uwch na'r 4.4% pe na fyddent wedi rhoi'r warchodaeth yma i ni.

1.2 Hyd yma, ein hymagwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

1.3 Eleni mae'r rheol yma yn golygu fod angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +0.45%. Fel y nodwyd y llynedd, mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â pha mor rhesymegol yw hi i'r Cyngor barhau i wireddu dymuniad Llywodraeth Cymru pan fyddwn yn gorfod torri ar wasanaethau eraill er mwyn talu amdano. Ni wyddom wrth gwrs beth fyddai effaith peidio â gwireddu'r dymuniad o ran ymateb Llywodraeth Cymru na'r ysgolion.

1.4 Dengys y ffigyrau sydd yn y gyllideb a nodir uchod (sy'n cynnwys sicrhau fod ysgolion yn derbyn y cynnydd angenrheidiol yn eu cyllidebau i gwrdd â chwyddiant a.y.b) ynghyd a'r camau eraill a argymhellir yn y rhan yma ein bod am gwrdd â'r addewid eleni.

1.5 Yn wahanol i wasanaethau eraill felly, am y drydedd flwyddyn yn olynol, ar y cyfan ni fydd y gyllideb ysgolion yn wynebu arbedion yn 2014/15 heblaw i wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa a rhai yn colli.

1.6 Fodd bynnag fel cyd-destun i'r sefyllfa yma rhaid bod yn fyw i'r hyn sy'n digwydd oherwydd sefyllfa grantiau a roddir yn uniongyrchol i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

1.7 Yn 2014/15 bydd ysgolion Gwynedd yn elwa bron i £900,000 yn y cynnydd yn y grant amddifadedd y bydd ysgolion yn ei dderbyn gyda thua £520,000 yn mynd i'r sector gynradd a thua £374,000 yn mynd i'r sector Uwchradd. Wrth gwrs fe fydd dyraniad hwn i ysgolion unigol yn ddibynnol ar y nifer o blant sydd gan ysgolion unigol sydd yn gymwys ar gyfer cinio am ddim ac i'w ddefnyddio i wella canlyniadau ymysg plant o gefndiroedd difreintiedig.

1.8 Yn erbyn hynny fodd bynnag bydd y sector Uwchradd yn wynebu gostyngiad o tua £500,000 yn y grant ôl 16 a grant rhwydwaith 14-19.

1.9 Gyda'r gostyngiad o £840,810 yn ei gyllideb oherwydd lleihad yn y niferoedd plant a nodir yng nghymal 3.9 uchod, a'r lleihad yn y grantiau yma, mae'r sector uwchradd yn mynd i fod yn dioddef yn sylweddol eleni gyda'r gostyngiadau yn tynnu at £1m.

1.10 Yn wyneb y gostyngiadau grant annisgwyl mae'r Gwasanaeth Ysgolion am gynnig £160,000 ar sail unwaith ac am byth o'i adnoddau ei hun er mwyn cynorthwyo'r sector i ddygymod gyda'r gostyngiad mewn grantiau.

1.11 Wedi dweud hynny wrth edrych ar y sefyllfa demograffi yn unig, mae'r gostyngiad mewn niferoedd plant yn golygu y bydd yna un ysgol yn disgyn o dan 260 o blant (sef y nifer lle mae yna wir amheuon ynglŷn â gallu ysgol i gynnal y cwricwlwm) ac felly awgrymir fod angen cynllun gwarchodaeth ar gyfer y sector uwchradd lle gwarchodir cyllideb ysgol uwchradd sy'n disgyn o dan 260 o blant tan y bydd modd dod o hyd i ateb mwy hir dymor ar gyfer ysgolion o'r maint yma.

1.12 Fodd bynnag, gyda dwy ysgol arall yn tynnu at y ffigwr 260 o blant mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau ateb hir dymor i'r broblem. Byddai cynllun o'r fath yn costio £27,580 yn 2014/15.

1.13 Mae yna gwestiwn, o gofio blaenoriaeth y Cyngor o fewn y Cynllun Strategol o fod yn dymuno codi safonau addysgol plant a phobl ifanc a ddylid mynd ymhellach ac a ddylid ystyried y balans cyllido rhwng y sector gynradd (sy'n gweld cynnydd o tua £1m yn eu cyllidebau yn 2014/15) a'r sector uwchradd (fydd yn gweld gostyngiad cyffelyb yn eu cyllideb hyd yn oed ar ôl cymryd y camau a nodir uchod).

1.14 Efallai nad yw amser yn caniatáu gwneud hynny nawr ond rhaid bod yn fyw i'r ffaith tra bydd y sector uwchradd wedi cynllunio ar gyfer effaith lleihad demograffi, nid yw gorfod darganfod ffyrdd o ddygymod gyda'r gostyngiad am gynorthwyo'r sector i fod yn canolbwyntio ar gyraeddiadau addysgol.

1.15 'Rwyf yn argymell y dylid helpu'r sector i ddygymod a'r lleihad drwy roddi mwy o amser iddynt ymgyfarwyddo a'r sefyllfa gan ychwanegu at y swm y mae'r gwasanaeth addysg ei hun yn bwriadu cynorthwyo drwy ddefnyddio balansau i wneud cyfraniad pellach unwaith ac am byth o £250,000.

## 1 Schools

1.1 The Welsh Government have noted that they have protected the Local Government Grant in order to ensure a lower reduction in school budgets compared with other services. The implication presumably is that we would have seen a reduction greater than 4.4% had they not given us this protection.

1.2 Our approach towards this to date has been to continue to plan on the basis of what the Council would wish to do for schools then measuring that against the Welsh Government's proposals and consider whether there is a need to adjust anything in order to comply with the promise.

1.3 This rule means that there is a need to ensure that this year, schools receive an increase of +0.45%. As noted last year, this raises the basic question as to how logical it is for the Council to continue to deliver the Welsh Government's wishes when we will have to cut other services to pay for it. We do not know of course what the effect would be of not complying in terms of Welsh Government response and the response of the schools themselves.

1.4 The figures in the budget shown above (which include ensuring that schools receive the necessary increase in their budgets to meet inflation etc) along with other actions noted in this section, mean that we will fulfil this requirement this year.

1.5 Therefore, unlike other services, for the third year in a row, overall the schools budget will not face having to find savings in 2014/15 other than to face the usual adjustmnets that arise from the change in pupil numbers, with some schools benefiting and some losing out.

1.6 However in order to understand the overall context, it is important that the Cabinet is aware of what is happening with grants given to schools by the Welsh Government.

1.7 In 2014/15 Gwynedd schools will benefit nearly £900,000 due to increased deprivation grant that schools receive with about £520,000 going to the primary sector and about £374,000 going to the secondary sector. Of course the distribution to individual schools will depend on the number of children in individual schools eligible for free school meals and it must be used to improve results amongst children from less priveledged backgrounds.

1.8 However against this increase, the secondary sector will face a reduction of about £500,000 in post 16 and 14-19 network grant.

1.9 With a reduction of £840,810 in the budget due to a decrease in the number of children noted in paragraph 3.9 above, and these grant reductions, the

secondary sector is going to suffer substantially this year with the reduction approaching £1m.

1.10 In view of the unexpected grant reduction, the Schools Service is offering £160,000 on a one off basis from its own resources in order to assist the sector to acclimatise to this reduction in grant.

1.11 However, if we look at the demographic position on its own, the reduction in the number of pupils means that one school will fall below 260 pupils (which is the number whereby there are real doubts on the ability of a school to deliver the curriculum) and therefore it is suggested that we need a protection scheme for the secondary sector whereby the budget of secondary schools that fall under 260 pupils is protected until it is possible to find a longer term solution for schools of this size.

1.12 However, with two other schools nearing the figure of 260 pupils, this underlines the need to ensure a long term solution to the problem. Such a plan would cost £27,580 in 2014/15.

1.13 Taking into account the Council's priority in its Strategic Plan of improving children and young persons' educational standards, there is a question as to whether we should go further and consider the funding balance between the primary sector (which will see an increase of nearly £1m in its overall budget) and the secondary sector (which will see a similar reduction in its budget even after taking the above steps into account).

1.14 It may be the case that time does not allow us to consider such a policy now, but we must be alive to the fact that whilst the secondary sector will have planned for the demographic reduction, finding ways of dealing with the total reduction is not going to do anything to help the sector concentrate on educational attainment.

1.15 I recommend that we assist the sector to acclimatise to the reduction by giving them more time to cope with the situation and add to the sum that the education service itself plans to use to assist, by using balances to make a one off contribution of a further £250,000.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Mawrth 2014 |
| **TEITL** | Ymchwil Amcangyfrif Balansau vs Gwir Falansau |
| **PWRPAS** | Adnabod cyfeiriad gwaith priodol |
| **ARGYMHELLIAD** | Gweler rhan 3. |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

**1. Cefndir**

1.1 Ymhellach i adroddiad ar falansau ysgolion a gyflwynwyd i gyfarfod y Fforwm 25 Mehefin 2013 penderfynwyd cynnal ymchwiliad i'r rhesymau pam fod gwir falansau nifer o ysgolion yn llawer uwch na chynlluniau'r ysgolion hynny wrth sefydlu eu cyllideb.

1.2 Penderfynwyd targedu ysgolion Cynradd ac Arbennig lle'r oedd eu gwir falansau dros £40,000 yn uwch na'u hamcangyfrif o'u balansau ar ôl sefydlu cyllideb, gyda throthwy £70,000 ar gyfer ysgolion Uwchradd.

1.3 Fel y gwelir o'r tabl isod roedd 4 Ysgol Gynradd a 4 Ysgol Uwchradd uwchben y trothwy perthnasol, gyda gwir falansau yr wyth ysgol yma yn £636,997 yn uwch na'u hamcangyfrif o'u balansau yn dilyn sefydlu eu cyllideb am y flwyddyn gyllidol 2012/13.

| | | | | | **AMCAN 1** | **GWIR** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau Balances 31/03/2012** | **Defnydd balansau i osod cyllideb Use of balances to set the buget for 2012/13** | **Balansau wedi gosod cyllideb Balances after setting the budget 2012/2013** | **Gwir falansau Actual balances 31/03/2013** | **Cynnydd rhwng AMCAN 1 a GWIR** |
| 1 | 2212 | Penybryn | **126,858** | 67,778 | 59,080 | 103,414 | 44,334 |
| 2 | 3005 | Maesincla | **79,535** | 49,800 | 29,735 | 72,464 | 42,729 |
| 3 | 3013 | Llandygai | **54,162** | 31,674 | 22,488 | 67,094 | 44,607 |
| 4 | 3029 | Tregarth | **106,351** | 59,348 | 47,003 | 102,669 | 55,666 |
| 5 | 4003 | Botwnnog | **175,823** | 174,278 | 1,545 | 127,980 | 126,435 |
| 6 | 4009 | Eifionydd | **288,171** | 237,796 | 50,375 | 176,868 | 126,493 |
| 7 | 4037 | Tryfan | **226,223** | 135,638 | 90,585 | 177,021 | 86,436 |
| 8 | 4040 | Glan Y Môr | **256,333** | 116,273 | 140,060 | 250,358 | 110,298 |
| | | | **1,313,455** | **872,585** | **440,870** | **1,077,867** | **636,997** |

**2. Canlyniadau'r Ymchwil**

Prif resymau dros y gwahaniaeth rhwng yr amcan gwreiddiol a'r gwir falansau -

2.1 Cyllideb Staffio - trosiant staff heb ei gynllunio yn y gyllideb (h.y. nid oedd yr wybodaeth ar gael wrth sefydlu'r gyllideb): cyfateb i oddeutu £257,000 o'r gwahaniaeth.

2.2 Cyllideb Ynni – gwir wariant ynni yn llai na'r gyllideb oherwydd agwedd geidwadol hanesyddol o osod maint y gyllideb a hefyd yn y flwyddyn gyllidol yma 'roedd gorddarpariaeth ar gyfer cynnydd ym mhrisiau ynni: cyfateb i oddeutu £118,000 o'r gwahaniaeth.

2.3 Cyllideb Cynlluniau Penodol- cyllidebu ar gyfer cynlluniau penodol yn llithro am resymau gwahanol (gan gynnwys yn y meysydd cynnal a chadw, technoleg gwybodaeth a staffio): cyfateb i oddeutu £83,000 o'r gwahaniaeth.

2.4 Cyllideb Incwm – gwir incwm yn uwch na'r gyllideb incwm sy'n awgrymu agwedd geidwadol wrth sefydlu cyfanswm neu darged incwm yn y gyllideb: cyfateb i oddeutu £22,000 o'r gwahaniaeth.

2.5 Incwm Grantiau – peidio â chydnabod grant wrth sefydlu'r gyllideb. Gwybodaeth am rai grantiau yn cyrraedd yn rhy hwyr i'w sefydlu yn y gyllideb: cyfateb i oddeutu £125,000 o'r gwahaniaeth.

**3. Casgliadau ac Argymellion**

3.1 Gofyn i'r Adran Addysg mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Cyllid ddarparu arweiniad penodol i Ysgolion a Chyrff Llywodraethol ar gyfer eu trefniadau sefydlu a monitro cyllideb, gan gynnwys -

3.1.1 Pwysigrwydd gwneud pob ymdrech i sefydlu cyllideb realistig.

3.1.2 Gwneud pob ymdrech i adnabod a chydnabod arbedion ar y cyfle cyntaf.

3.1.3 Adrodd yn ffurfiol i'r Is-bwyllgor Cyllid a/neu i'r Corff Llywodraethol ar gasgliadau adolygiadau monitro ariannol yn ystod y flwyddyn ac ystyried defnydd o unrhyw danwariant gan gofnodi'r penderfyniad.

3.1.4 Adolygu disgwyliadau cyllidol oddi fewn i'r 'Cynllun Datblygu Ysgol' ac adnabod a oes gofyn / cyfle i flaenoriaethu cynlluniau datblygu pan fo adnoddau ariannol ar gael.

**EITEM 5(ii)**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Mawrth 2014 |
| **TEITL** | Rhagolwg Balansau Ysgolion ar 31/3/2014 |
| **PWRPAS** | Codi ymwybyddiaeth a chynnal trafodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried holl gyd-destun y drafodaeth |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

**1. Cefndir**

1.1 Cyflwynir Atodiad 1 sy'n cynnwys rhagolwg o gyfanswm balansau ysgolion Gwynedd ar 31 Mawrth 2014.

**2. Crynodeb**

2.1 Awgrymir y gall balansau holl ysgolion Gwynedd leihau £200,000 (neu fwy) erbyn diwedd y flwyddyn gyllidol 2013/14 i £3.539m, cyfateb i 4.9% o ddyraniad cyllidol ysgolion (y casgliad yma yn seiliedig ar yr amcangyfrif uchaf o amrediad balansau yr Ysgolion Cynradd)

2.2 Awgrymir y gall nifer yr ysgolion gyda diffyg cyllidol leihau o 12 ar 31 Mawrth 2013 i 7 (neu lai) ar 31 Mawrth 2014.

**3. Ysgolion yn ôl sector**

3.1 Mae amrediad rhagolwg balansau Ysgolion Cynradd yn awgrymu y gall eu balansau naill ai aros o gwmpas yr un lefel â'r llynedd neu gynyddu hyd at £400,000 fyddai'n gadael cyfanswm balansau o ddeutu £2.7m ac yn cyfateb felly i 7.7%.

3.2 Mae rhagolwg Ysgolion Uwchradd yn awgrymu y gall eu balansau leihau oddeutu £600,000 i gymharu gyda'r llynedd fyddai'n gadael cyfanswm balansau oddeutu £0.8m ac yn cyfateb felly i 2.3%.

3.3 Mae'r rhagolwg ar gyfer y ddwy Ysgol Arbennig yn awgrymu uchafswm balansau o £30,000, ac yn cyfateb felly i 1.4%.

## 4. Casgliadau

4.1 O safbwynt holl ysgolion Gwynedd, nid yw rhagolwg canran balansau o 4.9% yn afresymol o uchel cyn belled ag y bo’r ysgolion yn llwyr ymwybodol or rhesymau dros gadw’r balansau hyn.

4.2 Tra bod manylu ar **sector** yn rhoi’r argraff bod balansau Ysgolion Cynradd yn parhau’n uchel ac o bosib am gynyddu ymhellach, dylid ystyried y mater o falansau ysgolion trwy edrych ar falansau **ysgolion unigol**.

4.3 Mae adroddiadau eraill sydd ar raglen cyfarfod heddiw wedi ceisio mynd dan groen pam fod gan rai ysgolion falansau uchel, a’r disgwyl yw y bydd y casgliadau a’r argymhellion yn arwain at well defnydd o falansau gan rai ysgolion.

# Atodiad / Appendix 1

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2013 ac Amcangyfrif Balansau 31 Mawrth 2014

mae ffigwr minws yn adnabod ysgol sydd wedi ychwanegu at balansau 31/03/2013
a minus figure indicates that the school has increased its balance during the year

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2013 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2013/14 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2013/2014 | amcangyfrif BRAS o falansau gan yr Uned Gyllid Datblygu a ROUGH estimate of balances by the Development Finance Unit 31/03/2014 rhwng / between | a / and | uchafswm amcangyfrif balansau fel % o ddyraniad 2013/14 maximum estimated balances as a % of the allocation for 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | 40,986 | 30,707 | 10,279 | 28,000 | 35,000 | 6.1% |
| 2 | 2004 | Nefyn | 40,787 | 26,704 | 14,083 | 39,000 | 51,000 | 11.5% |
| 3 | 2006 | Llanrug | -7,324 | -13,293 | 5,969 | -12,000 | -6,000 | -0.8% |
| 4 | 2008 | Abererch | 13,384 | 3,868 | 9,516 | 12,000 | 14,000 | 6.4% |
| 5 | 2009 | Abersoch | 20,741 | 10,269 | 10,472 | 25,000 | 26,000 | 19.5% |
| 6 | 2010 | Beddgelert | 17,317 | 11,574 | 5,743 | 11,000 | 14,000 | 8.2% |
| 7 | 2011 | Bethel | -14,380 | 0 | -14,380 | 4,000 | 8,000 | 1.7% |
| 8 | 2013 | Bodfeurig | 31,914 | 8,399 | 23,515 | 24,000 | 25,000 | 10.8% |
| 9 | 2015 | Borthygest | 5,378 | -3,898 | 9,276 | 11,000 | 13,000 | 6.3% |
| 10 | 2016 | Bronyfoel | 32,050 | 16,010 | 16,040 | 28,000 | 30,000 | 16.8% |
| 11 | 2017 | Brynaerau | 10,825 | -2,859 | 13,684 | 19,000 | 20,000 | 8.2% |
| 12 | 2024 | Carmel | 19,832 | 14,876 | 4,956 | 18,000 | 23,000 | 12.1% |
| 13 | 2026 | Y Gelli | 39,515 | 20,773 | 18,742 | 40,000 | 53,000 | 8.0% |
| 14 | 2028 | Penybryn | 31,023 | 21,675 | 9,348 | 17,000 | 22,000 | 5.3% |
| 15 | 2033 | Treferthyr | 45,096 | 28,992 | 16,104 | 33,000 | 38,000 | 10.6% |
| 16 | 2035 | Cwm Y Glo | 25,914 | 2,412 | 23,502 | 35,000 | 36,000 | 16.6% |
| 17 | 2036 | Chwilog | -1,188 | -1,966 | 778 | 7,000 | 9,000 | 4.2% |
| 18 | 2039 | Crud Y Werin | 11,277 | 0 | 11,277 | 35,000 | 38,000 | 16.3% |
| 19 | 2042 | Dolbadarn | 35,205 | 30,264 | 4,941 | 30,000 | 41,000 | 7.6% |
| 20 | 2046 | Edern | 5,053 | 0 | 5,053 | 17,000 | 19,000 | 6.9% |
| 21 | 2047 | Felinwnda | 10,451 | 7,022 | 3,429 | 12,000 | 13,000 | 8.0% |
| 22 | 2048 | Bro Plennydd | 5,393 | -5,578 | 10,971 | 8,000 | 10,000 | 3.7% |
| 23 | 2049 | Garndolbenmaen | 9,952 | 2,575 | 7,377 | 13,000 | 16,000 | 7.3% |
| 24 | 2051 | Glanadda | 24,147 | 11,728 | 12,419 | 20,000 | 24,000 | 10.5% |
| 25 | 2057 | Groeslon | 37,036 | 23,582 | 13,454 | 50,000 | 52,000 | 19.0% |
| 26 | 2059 | Llanaelhaearn | -2,306 | -2,306 | 0 | 1,000 | 6,000 | 3.4% |
| 27 | 2060 | Llanbedrog | 6,955 | -3,159 | 10,114 | 13,000 | 16,000 | 6.6% |
| 28 | 2066 | Llangybi | 13,977 | 0 | 13,977 | 17,000 | 22,000 | 7.8% |
| 29 | 2069 | Llanllechid | 47,858 | 17,797 | 30,061 | 44,000 | 67,000 | 8.1% |
| 30 | 2070 | Llanllyfni | 47,628 | 2,236 | 45,392 | 26,000 | 29,000 | 8.3% |
| 31 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | 21,036 | 5,657 | 15,379 | 21,000 | 22,000 | 12.0% |
| 32 | 2078 | Baladeulyn | 713 | 313 | 400 | 3,000 | 4,000 | 2.2% |
| 33 | 2081 | Nebo | 21,829 | 9,226 | 12,603 | 18,000 | 21,000 | 12.2% |
| 34 | 2085 | Penisarwaen | 20,369 | 5,266 | 15,103 | 26,000 | 29,000 | 13.3% |
| 35 | 2089 | Bro Lleu | 42,569 | 18,522 | 24,047 | 30,000 | 35,000 | 6.4% |
| 36 | 2093 | Pentreuchaf | 16,529 | 9,172 | 7,357 | 4,000 | 9,000 | 2.8% |
| 37 | 2097 | Rhiwlas | -3,813 | 0 | -3,813 | -2,000 | 2,000 | 1.0% |
| 38 | 2098 | Rhosgadfan | -564 | -2,122 | 1,558 | 8,000 | 13,000 | 6.6% |
| 39 | 2099 | Rhostryfan | -5,758 | -5,758 | 0 | -2,000 | 4,000 | 1.7% |
| 40 | 2103 | Sarn Bach | 36,917 | 26,044 | 10,873 | 29,000 | 33,000 | 15.3% |
| 41 | 2104 | Eifion Wyn | 34,524 | -7,057 | 41,581 | 32,000 | 39,000 | 5.2% |
| 42 | 2108 | Talysarn | 27,321 | 15,562 | 11,759 | 23,000 | 28,000 | 9.4% |
| 43 | 2110 | Y Gorlan | 7,335 | 2,686 | 4,649 | 31,000 | 37,000 | 10.1% |
| 44 | 2111 | Yr Eifl | 1,365 | 0 | 1,365 | 0 | 3,000 | 1.6% |
| 45 | 2112 | Tudweiliog | 953 | -4,480 | 5,433 | 12,000 | 13,000 | 6.6% |
| 46 | 2113 | Waunfawr | 12,482 | 1,399 | 11,083 | 15,000 | 19,000 | 4.5% |
| 47 | 2116 | Glancegin | 43,312 | 20,652 | 22,660 | 6,000 | 9,000 | 1.2% |
| 48 | 2118 | Bab Coed Mawr | 37,181 | 12,861 | 24,320 | 37,000 | 38,000 | 16.3% |
| 49 | 2119 | Yr Hendre | -9,843 | -9,843 | 0 | -11,000 | -5,000 | -0.4% |
| 50 | 2122 | Bontnewydd | 46,497 | 21,938 | 24,559 | 39,000 | 44,000 | 7.6% |
| 51 | 2123 | Y Garnedd | 34,868 | 0 | 34,868 | 42,000 | 43,000 | 4.5% |
| 52 | 2125 | Cymerau | 55,798 | 16,471 | 39,327 | 69,000 | 83,000 | 7.6% |
| 53 | 2126 | Abercaseg | 77,907 | 40,003 | 37,904 | 64,000 | 66,000 | 17.6% |
| 54 | 2127 | Y Felinheli | 26,881 | 20,866 | 6,015 | 15,000 | 17,000 | 3.4% |
| 55 | 2180 | Bala | 32,664 | 7,248 | 25,416 | 57,000 | 63,000 | 17.0% |
| 56 | 2181 | Traeth | 25,053 | 0 | 25,053 | 13,000 | 26,000 | 4.2% |
| 57 | 2182 | Clogau | -2,040 | -2,040 | 0 | 4,000 | 7,000 | 3.7% |
| 58 | 2183 | Brithdir | 17,468 | 3,991 | 13,477 | 14,000 | 17,000 | 10.0% |
| 59 | 2185 | Corris | 44,053 | 3,678 | 40,375 | 41,000 | 46,000 | 22.2% |
| 60 | 2187 | Dinas Mawddwy | 13,476 | 3,566 | 9,910 | 34,000 | 36,000 | 18.7% |
| 61 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | 8,616 | 238 | 8,378 | 17,000 | 18,000 | 8.6% |
| 62 | 2190 | Bro Cynfal | 25,006 | 1,904 | 23,102 | 20,000 | 24,000 | 10.6% |
| 63 | 2191 | Ganllwyd | 5,312 | 79 | 5,233 | 9,000 | 10,000 | 5.7% |
| 64 | 2192 | Edmwnd Prys | 12,379 | 7,195 | 5,184 | 10,000 | 12,000 | 6.6% |
| 65 | 2194 | Llanbedr | 3,248 | -3,699 | 6,947 | 15,000 | 20,000 | 8.5% |
| 66 | 2197 | Llanelltyd | 7,011 | 0 | 7,011 | 17,000 | 18,000 | 9.7% |
| 67 | 2198 | Y Garreg | 19,292 | 14,362 | 4,930 | 20,000 | 26,000 | 17.3% |
| 68 | 2199 | O.M.Edwards | 8,164 | 0 | 8,164 | 3,000 | 7,000 | 2.5% |
| 69 | 2205 | Manod | 50,064 | 24,949 | 25,115 | 42,000 | 45,000 | 13.4% |
| 70 | 2207 | Pennal | 14,331 | -63 | 14,394 | 22,000 | 24,000 | 13.4% |
| 71 | 2208 | Cefn Coch | 41,887 | 14,635 | 27,252 | 26,000 | 35,000 | 5.8% |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2013 ac Amcangyfrif Balansau 31 Mawrth 2014

mae ffigwr minws yn adnabod ysgol sydd wedi ychwanegu at balansau 31/03/2013
a minus figure indicates that the school has increased its balance during the year

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2013 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2013/14 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2013/2014 | amcangyfrif BRAS o falansau gan yr Uned Gyllid Datblygu a ROUGH estimate of balances by the Development Finance Unit 31/03/2014 rhwng / between | a / and | uchafswm amcangyfrif balansau fel % o ddyraniad 2013/14 maximum estimated balances as a % of the allocation for 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 72 | 2210 | Talsarnau | 6,090 | 2,200 | 3,890 | 16,000 | 20,000 | 10.7% |
| 73 | 2211 | Tanygrisiau | 752 | 598 | 154 | 7,000 | 12,000 | 4.3% |
| 74 | 2212 | Penybryn | 103,414 | 69,845 | 33,569 | 41,000 | 63,000 | 8.4% |
| 75 | 2213 | Bro Hedd Wyn | 20,104 | 8,431 | 11,673 | 24,000 | 27,000 | 9.4% |
| 76 | 2214 | Frongoch | 13,288 | 0 | 13,288 | 33,000 | 34,000 | 20.6% |
| 77 | 2215 | Ieuan Gwynedd | 9,275 | -3,207 | 12,482 | 30,000 | 31,000 | 16.7% |
| 78 | 2216 | Friog | 8,509 | 5,553 | 2,956 | 10,000 | 13,000 | 7.7% |
| 79 | 2219 | Tan y Castell | 26,525 | 11,215 | 15,310 | 29,000 | 32,000 | 11.4% |
| 80 | 2220 | Ffridd y Llyn | 29,036 | 7,073 | 21,963 | 35,000 | 37,000 | 15.6% |
| 81 | 2221 | Maenofferen | 31,759 | 0 | 31,759 | 14,000 | 31,000 | 3.9% |
| 82 | 2227 | Hirael | 43,481 | 0 | 43,481 | 26,000 | 47,000 | 7.5% |
| 83 | 2228 | Craig y Deryn | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 13,000 | 5.3% |
| 84 | 3004 | Pont y Gôf | 16,406 | 15,143 | 1,263 | 13,000 | 18,000 | 5.1% |
| 85 | 3005 | Maesincla | 72,464 | 27,423 | 45,041 | 52,000 | 68,000 | 5.9% |
| 86 | 3009 | Faenol | 49,351 | 42,178 | 7,173 | 55,000 | 59,000 | 8.7% |
| 87 | 3010 | Foelgron | 16,647 | 6,389 | 10,258 | 5,000 | 8,000 | 4.9% |
| 88 | 3013 | Llandygai | 67,094 | 31,509 | 35,585 | 58,000 | 63,000 | 12.8% |
| 89 | 3018 | Llandwrog | 20,194 | 4,862 | 15,332 | 12,000 | 15,000 | 5.8% |
| 90 | 3023 | Llanystumdwy | 18,231 | 7,188 | 11,043 | 10,000 | 14,000 | 8.6% |
| 91 | 3029 | Tregarth | 102,669 | 44,763 | 57,906 | 88,000 | 98,000 | 20.6% |
| 92 | 3030 | Cae Top | 15,834 | 12,144 | 3,690 | 30,000 | 50,000 | 5.9% |
| 93 | 3037 | Llanfachraeth | 41,712 | 30,850 | 10,862 | 21,000 | 23,000 | 18.1% |
| 94 | 3041 | Dolgellau | 23,504 | 15,472 | 8,032 | 19,000 | 35,000 | 6.2% |
| 95 | 3300 | Santes Helen | 18,930 | -4,548 | 23,478 | 43,000 | 46,000 | 15.1% |
| 96 | 3301 | Our Lady | 34,511 | 1,672 | 32,839 | 21,000 | 29,000 | 7.3% |
| 97 | 3305 | Beuno Sant | 17,277 | 5,943 | 11,334 | 11,000 | 18,000 | 7.4% |
| | | **CYNRADD / PRIMARY** | **2,283,945** | **874,521** | **1,409,424** | **2,211,000** | **2,708,000** | **7.7%** |

mae ffigwr minws yn adnabod ysgol sydd wedi ychwanegu at balansau 31/03/2013
a minus figure indicates that the school has increased its balance during the year

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2013 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2013/14 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2013/2014 | amcangyfrif yr ysgol o falansau the school's estimate of balances 31/03/2014 | amcangyfrif balansau fel % o ddyraniad 2013/14 estimated balances as a % of the allocation for 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | 107,424 | 75,687 | 31,737 | 131,000 | 6.9% |
| 2 | 4003 | Botwnnog | 127,980 | 116,840 | 11,140 | 5,000 | 0.2% |
| 3 | 4004 | Brynrefail | 98,221 | 41,087 | 57,134 | 72,000 | 2.1% |
| 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | 94,707 | 35,000 | 59,707 | 60,000 | 2.5% |
| 5 | 4009 | Eifionydd | 176,868 | 152,268 | 24,600 | 107,000 | 5.6% |
| 6 | 4030 | Y Gader | -15,644 | 0 | -15,644 | -63,000 | -3.2% |
| 7 | 4031 | Y Moelwyn | 172,715 | 63,889 | 108,826 | 130,000 | 7.3% |
| 8 | 4032 | Tywyn | 96,856 | 81,356 | 15,500 | 16,000 | 1.1% |
| 9 | 4033 | Y Berwyn | -181,017 | -13,900 | -167,117 | -167,000 | -9.6% |
| 10 | 4034 | Ardudwy | 165,986 | 46,024 | 119,962 | 150,000 | 9.3% |
| 11 | 4036 | Friars | 59,547 | 59,547 | 0 | 0 | 0.0% |
| 12 | 4037 | Tryfan | 177,021 | 55,041 | 121,980 | 145,000 | 6.2% |
| 13 | 4039 | Syr Hugh Owen | 142,344 | 112,591 | 29,753 | 35,000 | 0.9% |
| 14 | 4040 | Glan Y Môr | 250,358 | 157,746 | 92,612 | 180,000 | 7.4% |
| | | **UWCHRADD / SECONDARY** | **1,473,367** | **983,176** | **490,191** | **801,000** | **2.3%** |

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2013 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2013/14 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2013/2014 | amcangyfrif BRAS o falansau gan yr Uned Gyllid Datblygu a ROUGH estimate of balances by the Development Finance Unit 31/03/2014 rhwng / between | a / and | uchafswm amcangyfrif balansau fel % o ddyraniad 2013/14 maximum estimated balances as a % of the allocation for 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3502 | Pendalar | -5,132 | 0 | -5,132 | -5,000 | 5,000 | 0.4% |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | 1,217 | -12,247 | 13,464 | 20,000 | 25,000 | 3.3% |
| | | **ARBENNIG / SPECIAL** | **-3,915** | **-12,247** | **8,332** | **15,000** | **30,000** | **1.4%** |

| | Balansau Balances 31/03/2013 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2013/14 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2013/2014 | rhwng / between | a / and | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm / Total** | **3,753,397** | **1,845,450** | **1,907,947** | **3,027,000** | **3,539,000** | **4.9%** |

**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

17 Chwefror 2014

## At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

***Adolygiad Cynllun Cyfarwyddo Balansau Ysgolion***

Byddwch eisoes yn ymwybodol o'r hawl a ddirprwyir i mi i gyfarwyddo Cyrff Llywodraethu sut i wario elfen o'u balansau. Byddai peidio â gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd yn golygu talu arian yn ôl i'r Gwasanaeth Addysg yn ganolog.

Mae'r cynllun presennol yn fy ngalluogi i ystyried gweithredu'r hawl i gyfarwyddo mewn sefyllfaoedd ble mae balansau cynradd dros £50,000 a hefyd dros 8%, ac yn y sector uwchradd ac arbennig bod balansau dros £100,000 a hefyd dros 8%. Nodaf fod y ddeddfwriaeth ar y mater yn cyfeirio at y trothwy ariannol penodol o £50,000/£100,000 yn unig h.y. nid oes unrhyw gyfeiriad at **ganran** trothwy felly mae ein cynllun presennol yn llawer mwy llac na'r ddeddfwriaeth.

Mae lefel uchel o falansau ysgolion ar lefel Genedlaethol ac yng Ngwynedd yn parhau i dderbyn sylw ar sawl lefel gan gynnwys y Gweinidog Addysg, rhieni/cyhoedd, aelodau etholedig Cyngor Gwynedd ayb.

Yn ystod cyfarfod 19 Tachwedd 2013 penderfynodd y Fforwm yn unfrydol i ymgynghori ar adolygu'r cynllun presennol fel y ganlyn :

- **Pennaeth Addysg i ystyried gweithredu'r hawl i gyfarwyddo ysgolion sut i wario elfen o'u balansau mewn sefyllfaoedd ble mae balansau dros 5% neu £50,000 (Cynradd) / £100,000 (Uwchradd ac Arbennig) pa un bynnag yw'r lleiaf.**

Os am sefydlu'r cynllun diwygiedig uchod bydd angen i bob ysgol ei gymeradwyo gan ddychwelyd **Atodiad A** atom erbyn diwedd y dydd, 23 Mai 2014, os gwelwch yn dda.

Nodaf fod yr Aelod Cabinet dros Addysg a minnau yn cefnogi'r cynllun diwygiedig.

Byddaf yn cyflwyno sylwadau llawn i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn eu cyfarfod ym mis Mehefin 2014.

Er gwybodaeth dyma gysylltiad i adroddiadau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar y wê
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=8068&doc=29857&Language=2&p=1&c=1

Yn gywir

***Dewi R Jones***

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Hefin Owen, Rheolwr Cyllid - Grŵp Datblygu
Tîm Rheoli'r Adran Addysg

**ATODIAD 'A'**

**ADRAN ADDYSG**

**Ymgynghori – Adolygu Cynllun Cyfarwyddo Balansau Ysgolion**

Yn ystod cyfarfod 19 Tachwedd 2013 penderfynodd y Fforwm yn unfrydol i ymgynghori ar adolygu'r cynllun presennol fel y ganlyn :

- **Pennaeth Addysg i ystyried gweithredu'r hawl i gyfarwyddo ysgolion sut i wario elfen o'u balansau mewn sefyllfaoedd ble mae balansau dros 5% neu £50,000 (Cynradd) / £100,000 (Uwchradd ac Arbennig) pa un bynnag yw'r lleiaf.**

| | |
|---|---|
| **Cytuno** gyda phenderfyniad y Fforwm | |
| **Anghytuno** gyda phenderfyniad y Fforwm | |
| **Unrhyw sylwadau** | |
| **Arwyddwyd:** ..........................................................................................<br>**Pennaeth**<br><br>**Arwyddwyd:** ..........................................................................................<br>**Cadeirydd Y Llywodraethwyr**<br><br>**Dyddiad:** .......................................................................................... | |
| **Anfoner at Annie Sanson, Ysgrifenyddes Y Pennaeth Addysg, erbyn 23 Mai 2014 os gwelwch yn dda anniesanson@gwynedd.gov.uk** | |

**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

12 Chwefror 2014

**At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd**

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Cefnogaeth Gwricwlaidd***

Fe fyddwch i gyd yn ymwybodol iawn bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Yr Awdurdod a'r ysgolion i gyd am 2013/2014 yn seiliedig ar y CLG rhwng Yr Awdurdod a GwE. Eglurwyd yn llawn mai dyma'r trefniant ar gyfer eleni wrth i'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion newydd gael ei sefydlu a chychwyn gweithredu fel endid yn ystod y flwyddyn.

Fe'ch atgoffaf yn awr o'r hyn yr wyf eisoes wedi ei gyflwyno i'r Fforwm Cyllid am ein bwriad fel Awdurdod i beidio â datganoli'r cyllid 'Cefnogaeth Gwricwlaidd' i'n hysgolion o 2014/2015 ymlaen. Bydd hynny'n fodd i ni sicrhau cydymffurfiad llawn ag arweiniad Y Gweinidog Addysg a dileu'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r CLG presennol.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y bwriad hwn gan Yr Awdurdod gofynnaf i chi eu nodi ar y daflen briodol **(Atodiad A)** a'i hanfon ataf erbyn **diwedd y dydd, 3 Mawrth 2014** os gwelwch yn dda.

Byddaf yn adrodd ar y mater hwn i'r Fforwm Cyllid ac i Gabinet Y Cyngor gan ofyn am eu cefnogaeth i'r bwriad.

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Hefin Owen, Rheolwr Cyllid
Tîm Rheoli'r Adran Addysg



Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk